**LC1367**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar Gyfer Cymorth i Fyfyrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi awdurdod cymorth i fyfyrwyr i gyflenwi gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â chais am gymorth i fyfyrwyr naill ai gan y myfyriwr dan sylw neu gan ei noddwyr i gyrff llywodraethu sefydliadau sy'n darparu cyrsiau sy'n gyrsiau wedi eu dynodi at ddibenion y cynllun cymorth i fyfyrwyr. Mae'r Rheoliadau hefyd yn galluogi awdurdodau cymorth i fyfyrwyr i gyflenwi i gyrff llywodraethu wybodaeth sy'n deillio o'r cais, megis a yw'r myfyriwr yn gymwys yn ystyr y cynllun cymorth i fyfyrwyr neu swm y cymorth i fyfyrwyr sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan y cynllun hwnnw.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae paragraff (b) o'r diffiniad o "awdurdod cymorth i fyfyrwyr" yn rheoliad 2 yn cyfeirio at "unrhyw awdurdod sy'n cwympo o fewn adran 45(7)(e)" o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Mae adran 45(7)(e) yn cyfeirio at " any authority or governing body by whom any function of the Assembly is for the time being exercisable to any extent by virtue of section 23(1) of the 1998 Act". Awgryma hyn nad yw cyrff llywodraethu wedi'u cynnwys ym mharagraff (b). Fodd bynnag, mae ail baragraff y Nodyn Esboniadol yn egluro bod y diffiniad yn cynnwys cyrff llywodraethu. Mae'n ymddangos felly ei bod yn bosibl bod cyrff llywodraethu wedi'u hepgor drwy amryfusedd ac y byddai modd cywiro'r mân wall drafftio drwy Femorandwm Cywiriadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**17 Hydref 2006**